CYFARFOD:	**PWYLLGOR PENSIYNAU**
DYDDIAD:	**23 TACHWEDD 2026**
TEITL:	**POLISI GWRTHDARO BUDDIANNAU CRONFA BENSIWN GWYNEDD**
PWRPAS:	**Adolygu a cymeradwyo'r polisi**
AWDUR:	**DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI**

---

1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Polisi Gwrthdaro Buddiannau Cronfa Bensiwn Gwynedd i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Pensiwn.

Mae'r polisi wedi'i baratoi gyda mewnbwn gan adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd. Mae'r polisi i'w weld yn Atodiad 1.

2. CEFNDIR

Fel rhan o ddiwygiadau "Addas ar gyfer y Dyfodol" Llywodraeth y DU ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), mae awdurdodau gweinyddol yn cael mandad cyfreithiol i sefydlu a chynnal polisi gwrthdaro buddiannau pwrpasol.

Bydd y polisi hwn yn rhan hanfodol o Fframwaith Llywodraethu'r Gronfa a bydd yn sylfaenol i reoli'r Gronfa Bensiwn yn effeithiol a chynnal hyder ymhlith aelodau'r cynllun, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.

Ar ôl mabwysiadu'r polisi hwn, mae'n ofynnol i'r Gronfa adolygu ac, os yw'n briodol, ddiweddaru ei pholisi gwrthdaro buddiannau o leiaf unwaith ym mhob cyfnod prisio, a heb oedi ar ôl unrhyw newid sylweddol i drefniadau llywodraethu'r Gronfa neu gwmni cronfa asedau perthnasol.

3. POLISI GWRTHDARO BUDDIANNAU

Mae'r polisi hwn yn darparu fframwaith clir ar gyfer sut y dylid nodi, datgan, cofnodi, rheoli ac adolygu gwrthdaro gwirioneddol, posibl a chanfyddedig.

Mae'r polisi yn sicrhau bod gwrthdaro buddiannau yn cael eu rheoli'n gyson, yn gymesur ac yn dryloyw ar draws trefniadau llywodraethu, rheoli, gweinyddu a chynghori Cronfa Bensiwn Gwynedd.

Mae'r polisi yn berthnasol i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau, aelodau'r Bwrdd Pensiwn, swyddogion perthnasol, cynghorwyr, rheolwyr, cyflenwyr ac unrhyw berson arall sy'n ymwneud â busnes y Gronfa.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r polisi.